



## DATGANIAD I'R WASG

### Y MAER YN CAEL EI ETHOL AM YR AIL FLWYDDYN YN OLYNOL

#### SEREMONI SEFYDLU'R MAER YN CAEL EI GYNNAL DRWY 'ZOOM' ELENI ETO

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Caerfyrddin ar Ddydd Mercher yr 28<sup>ain</sup> o Fai 2021. Oherwydd Pandemig Coronafeirws cafodd ei gynnal am yr ail flwyddyn yn olynol drwy linc fideo.

Dechreuodd y cyfarfod gyda gair o weddi gan y Parch. Beti Wyn James cyn ethol arweinwyr dinesig y dref.

Etholwyd y Cynghorydd Gareth John i barhau fel Maer am yr ail flwyddyn yn olynol.

Adlewyrchodd y Cyng. John ar flwyddyn anodd i'r gymuned oherwydd pandemig coronafeirws barhaus. Cyngor Tref Caerfyrddin oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i gynnal Seremoni Sefydlu'r Maer rhithwir ymysg y pandemig. Wnaeth y flwyddyn rhoi nifer fawr iawn o heriau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i Gyngor Tref Caerfyrddin ac i'r dref gyfan, gyda busnesau lleol yn benodol wedi dioddef o'r heriau achoswyd oherwydd y cyfnodau hir o gloi a diffyg ymwelwyr a siopwyr i'r dref.

'Mae fy meddyliau gyda phawb sydd wedi bod yn sâl gyda'r feirws a hoffwn gyfleu fy nghydymdeimlad diffuant a phawb sydd wedi colli aelodau o'r teulu neu ffrindiau i'r salwch ofnadwy hwn'.

Dywedodd y Cyng. John, a wnaeth ddechrau'r grŵp 'Adfer Canol Tref' ac sydd yn parhau i gwrdd pob bore dydd Llun: 'Fel Cyngor Tref rydym wedi gweithio'n galed gyda nifer o bartneriaid i gyd-drefnu adfer economi'r dref ac mae hyn wedi bod yn heriol iawn - a bydd hyn yn parhau am beth amser i ddod. Mae pobl wedi colli eu gwaith ac mae nifer o fusnesau yn parhau i ymdrechi'.

'Wrth i ni agor ein tref yn ystod yr haf gobeithio y bydd cyfleodd i'r economi leol wella cyn gynted â phosib'.

Talodd y Maer deyrnged i'r holl grwpiau a gwirfoddolwyr a wnaeth gynnig cymorth yn ystod y pandemig, yn enwedig Banc Bwyd Caerfyrddin, Ford Gron Caerfyrddin, Byddin yr Iachawdwriaeth, capeli ac eglwysi a'r Grŵp Gofal Cymunedol yn cynnwys dros 50 o wirfoddolwyr a roddodd eu hunain ymlaen i helpu i ddarparu cefnogaeth i bobl fregus lleol.

Cyfeiriodd hefyd at y rhestr hir o 'tro cyntaf' yn ystod y flwyddyn oherwydd yr amgylchiadau newidiol a datblygiadau cadarnhaol parhaus yn y dref, megis darparu

ffwrwmau a pharasolau yn y parc a chwrt blaen y castell a basgedi grog am ddim i fusnesau a oedd gynt yn rhan o'r cynllun.

Fe wnaeth y Maer cydnabod gwaith caled staff y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ymateb i'r sefyllfa a llenwi rolau a oedd angen eu llenwi wrth ddod â phobl ynghyd. Diolchodd i'r Cyngor am y cyfle i wasanaethu'r gymuned yn ystod blwyddyn heriol.

Etholwyd y Cyngorydd Miriam Moules i barhau fel Dirprwy Faer am yr ail flwyddyn yn olynol a phenodwyd y Cyngorydd Wyn Thomas eto fel Siryf Tref Caerfyrddin.

Datganodd y Maer newydd ddatgan fod ei wraig, Claire, yn Faeres, a'r Parchedig Beti Wyn James yn Gaplan y Maer am y flwyddyn.

